



Lynne Neagle AC  
Cadeirydd  
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

26 Medi 2017

Annwyl Lynne,

Rwy'n siŵr eich bod yn ymwybodol ein bod y bore yma wedi cyhoeddi cynllun gweithredu newydd y Llywodraeth: Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein Cenedl

Byddaf yn gwneud datganiad llawn yn y Senedd y prynhawn yma, ond dyma er eich gwybodaeth chi a'r pwyllgor, wybodaeth gefndirol pellach.

Fe sylwch fod y cynllun gweithredu yn nodi amserlen glir a thryloyw ar gyfer datblygu a darparu ein trefniadau cwricwlwm ac asesu newydd. Bydd y diweddariad yma hefyd yn cael ei gyhoeddi drwy sianeli cyfryngau cymdeithasol, trwy gyfathrebu'n uniongyrchol ag ysgolion ag athrawon, a hefyd thrwy gyfathrebu â chynulleidfaoedd allweddol eraill.

Mae diogelu fod y trefniadau cwricwlwm ac asesu trawsnewidiol newydd yn cael eu gwireddu yn ganolog i'r cynllun gweithredu, a hynny trwy gymorth pedwar amcan galluogi allweddol. Fel y gwyddoch o'r dystiolaeth sy'n cael ei roi i'r pwyllgor, mae'r gwaith o ddylunio a datblygu'r cwricwlwm, yn unol â gweledigaeth Dyfodol Llwyddiannus, eisoes wedi cychwyn.

Fel y gwyddoch hefyd, dywedodd yr OECD, yn ei adroddiad diweddar parthed ein taith ddiwygio, " er mwyn cefnogi'r broses o wireddu ei hamcanion addysg a'i gweledigaeth o'r dysgwyr Cymreig...dylai Cymru barhau i ddiwygio'r cwricwlwm..... gan sicrhau bod y daith ddiwygio yn gynhwysfawr ac effeithiol."

Dwi hefyd wedi ystyried her a chynghor y pwyllgor parthed gweithredu'r cwricwlwm, ac wedi gofyn am adborth pellach o'r proffesiwn, arbenigwyr rhyngwladol a rhanddeiliaid eraill ar hyn. Credaf ei bod yn iawn ein bod yn cyflwyno'r cwricwlwm newydd yn raddol, yn hytrach na'i gyflwyno fel un ergyd sydyn, gyda chymorth rhanddeiliaid a gweithwyr addysgol proffesiynol, ac yn unol â thystiolaeth ryngwladol.

Gall ysgolion brofi, mireinio a rhoi adborth ar y trefniadau asesu newydd a'r cwricwlwm newydd o'r Pasg 2019. Ar ôl y cyfnod hyn, bydd gan bob ysgol fynediad i'r cwricwlwm terfynol o 2020 ymlaen, er mwyn iddynt fedru ymbaratoi'n llwyr erbyn iddo gael ei

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

[Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales](mailto:Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.


We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

gyflwyno'n derfynol ym Medi 2022. Caiff wedyn ei gyflwyno o oedran feithrinfa i Flwyddyn 7 yn 2022, Blwyddyn 8 yn 2023, Blwyddyn 9 yn 2024 ac yn y blaen wrth i ni symud drwy bob blwyddyn ysgol.

Mae'r model Arloesi'n gweithio'n dda. Mae ein hymrwymiad yn parhau yr un - i gynllunio a gweithredu cwricwlwm newydd addas ar gyfer pob dysgwr o 3-16, sydd yn arloesol ac o'r radd flaenaf, ac i gyflwyno trefniadau asesu a fydd yn rhoi blaenoriaeth i Asesu ar gyfer Dysgu ac a fydd yn cefnogi ac yn llywio dysgu ac addysgu o'r radd flaenaf.

Edrychaf ymlaen at barhau i ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf ynghylch y cynnydd sy'n cael ei wneud i'r pwyllgor, dros yr wythnosau a'r misoedd i ddod.

Yr eiddoch yn gywir,



**Kirsty Williams AC/AM**

Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg  
Cabinet Secretary for Education